

# Segrgrair

## Paul Eastwood

Mae 'Segrgrair' yn cymrydnofel i wtopaidd/dystopaidd 'Wythnos yng Nghymru Fydd' gan Islwyn Ffowc Elis fel man gadael. Mae'r nofel arloesol yn waith ffuglen wyddonol lle daw'r prif gymeriad ar draws dau fersiwn gwrthgyferbynol o'r dyfodol, y naill lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a'r llall lle collwyd y Gymraeg. Yn nyfodol dychmygol Eastwood, mae llais yn disgrifio amgueddfa wedi'i cherfio i mewn i'r mynydd. Mae'r gwrthrychau diwylliannol yr oedd yn gartref iddynt ar un adeg wedi eu torri ar y llawr, gyda'r gair 'Segrgrair' mewn traed brain ar y wal. Wrth i lythrennau arnofio i lawr o'n blaenau, fe'n gwneir yn ymwybodol bod iaith ag ymwybyddiaeth ei hun hefyd yn preswylio ym muriau'r amgueddfa hon. Drwy gyfeirio at wahanol bethau diwylliannol, mae'r artist yn ein herio i ddod o hyd i ystyr ac ystyried materion iaith a hunaniaeth o'r newydd.

Comisiynwyd 'Segrgrair' yn wreiddiol gan Oriel Wrecsam, ac fe'i cyflwynir yma ochr yn ochr â gweithiau newydd – i gyd-fynd â chynhyrchiad OPRA Cymru o 'Wythnos yng Nghymru Fydd', mewn partneriaeth â Pontio a Phrifysgol Bangor. Yn 'Tri ar ddeg ar hugain' mae gwisgoedd a phypedau, a ysbrydolwyd gan theatr bypedau 'Bunraku' Japaneidd draddodiadol, yn cael eu defnyddio i lwyfannu dyfodol yn 2033 (y flwyddyn y gosodir nofel Islwyn Ffowc Elis).

Cafodd Paul Eastwood (g. 1985, Wrecsam) ddiploma ôl-radd o'r 'Royal Academy Schools' yn 2014, ar ôl astudio Paentio cyn hynny yn 'Wimbledon School of Art'. Mae ei arddangosfeydd diweddar yn cynnwys The Bear Pit, Focal Point Gallery, Southend (2015); Feast of Fools, TAP, Southend (2016); Sunday Art fair, Llundain (2015); Annexinema, Bloc Projects, Sheffield & g39, Caerdydd (2015); Graphics Interchange Format, Focal Point Gallery, Southend (2015); Touching | Paul Eastwood & Max Prus, Kennington Residency, London (2014); Royal Academy Schools Show (2014).

'Segrgrair' takes Islwyn Ffowc Elis's utopian/dystopian novel 'Wythnos yng Nghymru Fydd' (A week in the Wales that will be) as a point of departure. The seminal novel is a work of science-fiction where the protagonist encounters two contrasting versions of the future, one where the Welsh language thrives, the other where it has been lost. In Paul Eastwood's imagined future, a voice describes a museum carved into the mountain. The cultural objects it once housed lie broken on the floor, the word 'Segrgrair' scrawled on the wall. As letters float down before us, we are made aware that a language with a consciousness of its own also resides within the walls of this museum. Through the layering of cultural references and signifiers, the artist challenges us to find meaning and to consider issues of language and identity anew.

'Segrgrair', originally commissioned by Oriel Wrecsam, is presented here alongside new works – to coincide with OPRA Cymru's production of 'Wythnos yng Nghymru Fydd', in partnership with Pontio and Bangor University. In 'Tri ar ddeg ar hugain' (Thirty three) costume and puppets, inspired by traditional Japanese 'Bunraku' puppet theatre, are used to stage a future in 2033 (the year in which Islwyn Ffowc Elis's novel is set).

Paul Eastwood (b. 1985, Wrexham) obtained a postgraduate diploma from Royal Academy Schools in 2014, having previously studied Painting at Wimbledon School of Art. Recent exhibitions include The Bear Pit, Focal Point Gallery, Southend (2015); Feast of Fools, TAP, Southend (2016); Sunday Art fair, London (2015); Annexinema, Bloc Projects, Sheffield & g39, Cardiff (2015); Graphics Interchange Format, Focal Point Gallery, Southend (2015); Touching | Paul Eastwood & Max Prus, Kennington Residency, London (2014); Royal Academy Schools Show (2014)

